

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddigwyddiad beirniadol a arsylwyd.

Cyflwyniad

Mae dadansoddi digwyddiadau a gwelwn mewn proffesiwn fel Dysgu yn fuddiol iawn. Trwy weld digwyddiad fel achos beirniadol, gall ymchwilyr gwella dealltwriaeth ac felly addasu ar gyfer y dyfodol. Fel athrawon, mae e'n bwysig astudio'r achosion a gwelwn yn y dosbarth. Gall yr achosion yma fod yn bethau bach, er enghraifft, disgybl yn chwarae efo pensil yn lle talu sylw neu yn fwy nodedig, disgybl yn dringo ar fwrdd i dynnu sylw'r dosbarth. Ar yr holl, nid yw rhan fwyaf o'r achosion yn amlwg. *"These incidents appear to be 'typical' rather than 'critical' at first sight, but are rendered critical through analysis."* (Tripp, 2012, pp. 65). Felly, ar ôl i'r achos cael eu nodi, mae'n troi yn feirniadol pan mae'r arsylwir yn ei dadansoddi'r achos ac yn ystyried y pam mae hyn wedi digwydd.

Mae dadansoddiad o ddigwyddiad sengl yn gallu amlygu safbwynt hollol newydd (Tripp, 2012, pp. 43), sydd yn helpu athrawon cymryd camau i addasu addysgu ar gyfer y dyfodol ac felly yn gwella eu harfer proffesiynol. Bydd yr aseiniad yma yn trafod y pwysigrwydd o hybu Cymraeg yn ysgolion yn ôl adroddiad Donaldson, sydd yn awgrymu bod rhaid cael mwy o ffocws ar allu plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg yn fwy hyderus am fywyd pob dydd (Llywodraeth Cymru, 2015a, pp. 7). Gwelwn fod rhan fwyaf o ysgolion heddiw yn cosbi disgyblion am siarad Saesneg yn y dosbarth. Trwy edrych arno un achos beirniadol yn ddyfnach byddwn yn dod i ddeall y pham mae Saesneg yn bodoli cymaint mewn ysgolion Cymraeg ac yn awgrymu camau weithredu ar gyfer y dyfodol.

Arsylwi

Yn ôl dilyn canllawiau a goswyd gan y 'British Educational Research Association' (BERA 2018), mae rhaid sicrhau anhysbysrwydd o'r cyfranogwyr a chafodd eu hastudio am resymau moesegol. Felly am yr aseiniad yma, cyfeiriwn at yr Ysgol a arsylwyd fel 'Ysgol X' ac na fydd y disgyblion sydd yn ynghlwm a'r achos beirniadol cael eu henwi. Mae Ysgol X yn ysgol uwchradd a sefydlwyd yng ngorllewin Cymru. Mae yna tua mil o ddisgyblion yn Ysgol X ac mae 10.1% ohonyn nhw yn cael PYD (Llywodraeth Cymru, 2018), sef prydau bwyd ysgol am ddim. Mae Ysgol X yn cael eu hystyried fel ysgol ddwyieithog gan fod yn cynnig rhai o bynciau, er enghraifft Gwyddoniaeth, trwy gyfrwng y Saesneg. Y dosbarth a chafodd eu harsylwi oedd ddosbarth gallu cymysg blwyddyn wyth. Felly yn ôl eu blwyddyn, roedd

oedrannau'r disgyblion yn amrywio o ddeuddeg i dair ar ddeg mlwydd oed. Roedd y dosbarth yn un fawr, efo tua thriedeg tri o ddisgyblion wedi'u chymysgu yn hafal o ferched a bechgyn. Ar y holl roedd ymddygiad pob disgybl yn y dosbarth yn dda ac roedd hefyd ganddyn nhw'r eisiau i gwblhau'r tasgau a goswyd gan yr athrawon heb ffwdan.

Methodoleg

Mae arsylwi yn galluogi ymchwilydd i gasglu data ansoddol o ddigwyddiadau cymdeithasol sy'n bresennol yn naturiol. Mae'r data a chasglwyd o arsylwi o fewn osodiadau gwahanol; y ffisegol - yr amgylchedd ffisegol yn yr ysgol/dosbarth; dynol - y nodweddion sydd yn perthyn i'r grŵp a arsylwyd e.e. oedran a rhyw; cydarwaith - rhyngweithiadau sydd yn digwydd o'n blaen e.e. ffurfiol neu ddim, ar lafar, a.y.b. Rhaglen - yr adnoddau sydd yn cael eu defnyddio a'r dull addysgeg (Morrison, 1993, pp. 80). Felly, mae'r dull arsylwi yn ffurf i dystio'r ymwybyddiaeth uniongyrchol a chynhyrchu data mwy dilys na dull casgliadol (Cohen, et al. 2011, pp. 456). Am yr aseiniad yma, defnyddiwn y dull arsylwi di-gyfranogwr, sef yn edrych ar y disgyblion yn unigol a sut maen nhw yn ymddwyn ac yn ymateb i'r amgylchedd o'n gwmpas nhw. Yn yr ystyr hyn, mewn amgylchedd dysgu.

Ond, mae rhaid hefyd adnabod y gwendidau o ddefnyddio arsylwi fel dull ymchwil. Mae arsylwi mewn cyffredinol yn rhagfarnllyd o ran y beth, pwy, pryd, pam a sut mae'r arsylwir yn arsylwi (Cohen et al, 2011, pp. 459). Pan yn arsylwi o fewn ysgolion mae rhaid dod i fewn i'r amgylchedd dysgu a gall unrhyw un o'r gosodiadau a nodwyd cyn newid o'r naturiol oherwydd bod wyneb newydd yn yr awyrgylch. Hynny yw, gall yr arsylwir fod yn wrthdynciad i'r ddisgyblion a falle ni cheid data hollol ddibynadwy. Hefyd, oherwydd bod arsylwi yn naturiol yn dibynnu ar sylw yr arsylwyd a'r cyfleoedd sydd ganddyn nhw, o bosib gall arsylwir colli allan arno wybodaeth bwysig am un disgybl neu ar gyfer achos beirniadol oherwydd bod yn edrych arno ddisgybl arall. Felly er mwyn bod yn ymchwilydd da mae rhaid bod yn ymwybodol o'r gwendidau hyn pan yn dadansoddi'r digwyddiad.

Yn yr aseniad yma, mae'r achos a gwelwn yn cael ei ddadansoddi fel un beirniadol ond gall wedi dadansoddi fel astudiaeth achos. Mae astudiaeth achos yn adnabod bod yna llawer o newidyn yn gweithredu o fewn achos sengl. Mae dull yma yn galw am fwy na un ffurf o gasgliad data (Cohen, et al. 2011, pp. 289) ac felly yn rhoi canfyddiadau mwy cyffredinol ar y holl. I gymharu a hyn, mae achos beirniadol yn gallu rhoi mewnwelediad ddyfnach i mewn i berson neu sefydliad sengl (Cohen, et al. 2011, pp.464). Er mwyn casglu'r data sydd angen i wneud astudiaeth achos, mae rhaid arsylwi yn yr un ysgol dros gyfnod arwyddocaol o amser. Nid oedd cyfle yn ystod y cyfnod arsylwi yma i wneud hyn, gan fod y cyfnod arsylwi yn fyr. Felly, mae'r amgylchiadau'r sefyllfa a'r ffaith bod dim ond un ffurf o ddata a chasglwyd, mae'n fwy addas i astudio'r achos fel un beirniadol yn unig.

Pedwar Pwrpas

Mae'r arsylliad yma yn seiliedig arno grŵp o ddisgyblion blwyddyn wyth mewn gwrs Daearyddiaeth (Atodiadau: Nodiadau arsylwi A). Gosodwyd yr athrawes tasg ymchwilio i'r disgyblion lle'r oedd rhaid iddyn nhw ddefnyddio atlas i ffeindio llefydd yn Ne America a nodi'r atebion ar daflen waith a rhoddwyd gan yr athrawes ar gychwyn y wers. Wrth wneud y dasg, roedd rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad efo'i gilydd yn Saesneg. Wnaeth yr athrawes sylwi arno hyn, yn ddweud bod hi gallu clywed Saesneg ac yn gofyn i'r dosbarth i siarad Cymraeg. Mae'r athrawes yn wneud hyn trwy gyfeirio at y rheolau Ysgol X ac yn atgoffa'r disgyblion am y gosb am siarad Saesneg. Mae'r disgyblion wedyn yn dechrau siarad am y dasg yn Gymraeg ond yn parhau i gyfathrebu efo'i gilydd yn dawel am wersi eraill a bywyd tu allan o'r ysgol yn Saesneg. Ar y holl, cwmpodd y sŵn yn y dosbarth, fel nad oedd gan y disgyblion yr hyder i siarad Cymraeg ac felly yn siarad yn Saesneg yn ddigon tawel lle ni fydd yr athrawes yn gallu clywed nhw. Yn ystod cyfnod arall o arsylwi efo'r un dosbarth, gwelwn dau fachgen, disgybl A a B yn cyfathrebu efo ei gilydd mewn gwrs Saesneg (Atodiadau: Nodiadau arsylwi D). Ar y cychwyn, roedd prif iaith y cyfathrebiad yn Gymraeg. Roedd disgybl A yn gofyn cwestiynau ynglŷn ar dasg a goswyd gan yr athrawes ac roedd disgybl B am ffocysu ar rywbeth a oedd yn digwydd ar ôl ysgol. Ar ôl holi disgybl A, dywed bod e yn siarad Cymraeg efo ei rhieni gartref. Wrth i fachgen a oedd yn siarad Saesneg yn gyson, disgybl C, symud i eistedd nesaf i ddisgybl A a B newidiodd y sgwrs i gyfrwng y Saesneg.

Mae'r pedwar diben Donaldson yn ceisio datblygu disgyblion fel unigolion cyflawn mewn gwahanol feysydd er mwyn sicrhau bod nhw yn barod i fyw bywyd fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. Dywed un o'r dibenion yma "*Bydd ein holl blant a phobl ifanc yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sydd yn gallu cyfathrebu yn effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.*" (Llywodraeth Cymru, 2015b). Felly, yn ôl barn Donaldson, bydd bod yn ddwyieithog yn rhan bwysig o wella addysg yng Nghymru ac yn gallu disgyblion i fod yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes. Yn ystyried yr achos beirniadol a nodwyd cyn, mae'n amlwg bod y disgyblion yn Ysgol X yn gyfarwydd a siarad Saesneg gyda'i gilydd ac o ganlyniad i hon, yn fwy hyderus yn siarad yr iaith mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau. Er mwyn dilyn dibynnau Donaldson, mae rhaid cael disgyblion i weld yr iaith Cymraeg yn gyfartal ac i'w ddefnyddio yn yr un ffurf. Trwy ymchwilio i mewn i le yn union mae'r agwedd negyddol tuag at yr iaith Cymraeg mewn pobl ifanc heddiw yn bodoli, gallwn weithredu camau ar gyfer y dyfodol a gwella safon iaith yn ysgolion.

Adolygiad llenyddiaeth

Gwaith ymchwil a chynhyrchwyd gan Smith (2016, pp. 53) yn son am y wahanol agweddau a theimladau pobl ifanc tuag at y beth maen nhw feddwl yw bod yn Gymraeg. Mewn ysgol yng Nghanol Cymru, gwnaeth Smith gynnig cyfweiliadau efo pumdeg o ddisgyblion o un ar bymtheg i ddeunaw mlwydd oed. Dangoswyd yr ymchwil hyn dau safbwynt diddorol iawn. Dywed un ferch, a oedd yn siarad bach o Gymraeg, *“The language makes Wales different, but you don’t have to speak the language to feel Welsh, you just have to know that Wales has its own language”*. Er hyn, gwnaeth un bachgen rhugl dweud *“Welshness means you speak Welsh, it’s important that we speak Welsh, because that’s an important part of Welsh culture, if you don’t speak Welsh it will die and Welsh culture will die too”*. Roedd y bachgen yma yn dod o deulu mawr o ffermwyr Cymraeg ac yn uniaethu yn gryf iawn fel Cymro. Gall awgrymu bod yna effaith fawr deuluol sydd yn arwain i'r plentyn yma i gael safbwynt mor gryf tuag at yr iaith Cymraeg. Felly mae rhaid ystyried pa fath o effaith ydy addysgu yn cael arni.

Dangoswyd arolwg gan y Bwrdd Yr Iaith Cymraeg (2008, pp. 24) bod 76% o blant un ar ddeg i bymtheg mlwydd sydd yn rhugl yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelwn duedd negyddol ar ddefnydd yr iaith Cymraeg mewn pobl ifanc dwyieithog ar ôl iddyn nhw adael ysgol yn un deg chwe blwydd oed. Un rheswm posib yw'r ffaith bod iaith yn cael ei defnyddio yn fwy ffurfiol mewn ysgolion sydd yn arwain at yr eisiau i bobl ifanc i siarad Cymraeg l leihau ac o ganlyniad i hyn, yn parhau i leihau mewn cenedlaethau olynol (Price a Tamburelli, 2016:190). Dyddiau yma, mae addysg trwy gyfrwng y Gymraeg wedi dod y brif fordd i greu mwy o siaradwyr Cymraeg a rhan fwyaf o'r amser mae'r disgyblion dim felly yn gwneud defnydd o eu hiaith tu allan o'r ysgol efo'u teuluoedd a'r gymuned ehangach (Baker 2003:101). Mae Thomas a Roberts (2011) yn ehangu arno hyn gan gynnig bod yr anghydbwysedd cyd-destunol, sydd yn debygol mewn ysgolion mewn cyfrwng iaith lleiafrif, yn rhwystro'r hyder o'r llefarwyr i ddefnyddio'r iaith hwnnw fel erfyn cymdeithasol. Casglwyd hefyd bod cydarwaith rhwng cyfoedion yn y dosbarth trwy gyfrwng y Gymraeg 91.7% o'r amser efo ferched a 69.4% o'r amser efo bechgyn (Thomas a Roberts 2011, pp. 98).

Mae Labov (1990) yn esbonio bod merched yn dilyn y rhai sydd, fel gwelant nhw, yn uwch mewn cymdeithas ac yn fordd bwysig o ran symudedd i fyny yn gymdeithasol. Mewn amgylchedd ysgol, byddant nhw yn dilyn yr enghraifft o'r athrawon. Yn ôl astudiaeth Price a Tamburelli (2016), gwelwn fod rhan fwyaf o ddisgyblion gwrywaidd yn gweld Cymraeg yn ffurf o ddilyn rheolau'r ysgol a'r athrawon ac os nad oeddent nhw mewn addysg Cymraeg bydden nhw yn siarad yr iaith yn fwy oherwydd bod nhw yn teimlo fod yr athrawon yn gorfodi nhw yn rhy aml. Felly teimlodd y disgyblion yn fod Cymreictod yn gysylltiol gydag ymddygiad, hynny yw, dim ond y disgyblion da oedd yn siarad Cymraeg. Mae cydffurfio i awdurdod oedolion yn

ymddygiad sydd yn cael arwyddocâd negyddol ymysg pobl ifanc. Yn ystod datblygiad cymdeithasol pobl ifanc maent nhw yn chwilio am hunaniaeth unigol yn gyson. Mae'r gymdeithas heddiw yn gymhleth ac yn gallu achosi lot o anhrefn, er enghraifft yr effaith o'r hyn a gwelant nhw yn y cyfryngau. Ymhlith a'r holl ddjarwybod, mae pobl ifanc yn crefu sefydlogrwydd sydd gan oedolion ac yn gwrthdaro awdurdod er mwyn sefydlu unigrywiaeth nhw (Lata a Devi, 2016). Felly gall diddwytho bod yn ysgolion Cymraeg, mae disgyblion yn gweld siarad Saesneg fel fordd hawdd i ennill adnabyddiaeth o'i gyfoedion ac felly yn parhau i'w wneud ar ol derbyn cosb.

Yn tynnu nôl at astudiaeth Price a Tamburelli (2016), teimlodd y disgyblion bod cosbi am siarad Saesneg yn annheg a bod eisiau saib o siarad Cymraeg mewn bywyd tu allan o'r ysgol. Gall diddwytho bod pwysau mae athrawon yn rhoi arno ddisgyblion yn wrthgynhyrchol. Yn ystyried fod rhan fwyaf o'r amser mae'r disgyblion yn chwilio am sylw pam maen nhw yn camymddwyn, mae rhaid cymryd dynesiad gwahanol. Mae gofal adferol o fewn ysgol yn gweld camymddwyn nid fel ymosodiad ar yr ysgol a'r rheolau a sefydlwyd ond ar y bobl ynddynt a'r perthnasau rhyngddyn nhw (Cameron a Thorsborne, 2001). Yn lle cosbi disgyblion mae'r dull yma yn ceisio dechrau sgwrs o gwmpas y digwyddiad, pam digwydded ac yn pwysleisio ar ailadeiladu perthnasau (McCluskey et al, 2008). Mae gofal adferol yn gwella amgylchedd yr ysgol, gwella dysgu ac yn annog pobl ifanc i fod yn fwy cyfrifol a hefyd yn fwy ymwybodol o'r byd o'n gwmpas nhw (Bitel, 2005). Mae yna hefyd lleihad mewn bwlio a chynnydd mewn hunan-barch (Wong et al, 2011).

Asesiad gan Swansea Council (2014) yn dangos y wahanol safbwyntiau mewn ysgol a sefydlwyd gofal adferol. Yn yr ysgol yma oedd 'Check-ins' yn digwydd pob bore, lle yn ystod cofrestru mae'r disgyblion yn cael siawns i drafod yr hyn a oedd yn poeni nhw ac yn diweddarw'r athro neu athrawes ar sut oeddent nhw yn teimlo'r bore yna. Gwnaeth yr ymarferwyr nodi'r gwelliant amgylchedd ar y holl gan roi'r disgyblion y dulliau i drafod eu teimladau, hefyd oedd lleihad mewn problemau a'r angen i ailymweld. Oedd y perthynas rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn datblygu oherwydd bod gan y disgyblion mwy i wneud a'r proses ac felly yn fwy parod i dderbyn y canlyniadau. Yn arwain o hyn, bod perthnasau yn gwella efo'r gymuned ehangach ac oedd gallu ganddyn nhw i sefydlu strwythur cymorth effeithiol.

Gwelwn fod rhan fwyaf o'r disgyblion wedi ffeindio eu profiadau o ofal adferol yn rhai positif a llwyddiannus. Teimlodd fod ganddyn nhw'r gallu i glywed dwy ochr o'r stori, i siarad trwy eu problemau, dealltwriaeth well o'r beth maen nhw wedi gwneud yn anghywir ac felly yn ceisio i ddatrys eu problemau. Pam oeddent nhw yn ymateb am y 'Check-ins' dywed bod cyfleoedd i rannu eu problemau a theimladau yn helpu elw dealltwriaeth o eu cyfoedion. Ar y holl oedd y

proses yn helpu iddyn nhw deimlo yn hapusach oherwydd gwelwn y 'check-ins' fel amser Iddyn nhw siarad, cael eu gwrando ar, dod i adnabod eu cyfoedion a chael eu trin yn deg (Swansea Council, 2014).

Mae Llywodraeth Cymru (2019a) yn anelu at gael un filiwn o siaradwyr Cymraeg yn erbyn 2050 a bod addysg yn cael rôl allweddol mewn ennill ystadegyn yma. Mae'r Fframwaith Siarter Iaith, datblygedig gan Lywodraeth Gwynedd, yn esbonio fod cymryd camau trawsffurfiol tuag at addysg, addysgu ac asesu o'r iaith Cymraeg yn hanfodol i gynyddu siaradwyr Cymraeg hyderus. Er mwyn hybu defnydd yr iaith Cymraeg dim yn unig mewn ysgolion ond hefyd yn fwy cymdeithasol, mae amryw o brosiectau wedi eu gweithredu o fewn Cymru. Mewn ysgolion cynradd, cafodd Siarter iaith ei gweithredu i ddatblygu defnydd dysgwyr o'r iaith Cymraeg. Hefyd cafodd Campus Cymraeg ei sefydlu i ddatblygu Cymraeg mewn ysgolion cynradd Saesneg, lle mae ysgolion yn gallu ennill gwobr trwy fwrw targedau o heriau cynyddol (Education through Regional Working, 2018). Yn ysgolion uwchradd Cymraeg mae yna mwy o bwyslais arno ddefnyddio'r iaith yn fwy cymdeithasol gan gynnig gweithgareddau hwyl a rhoi cyfleoedd i annog Cymraeg yn anffurfiol. Mae'r Siarter iaith hefyd yn rhoi'r cymorth hwn i ysgolion uwchradd Saesneg trwy brosiect gan yr Urdd 'Cymraeg Pob Dydd' (Urdd Gobaith Cymru, 2019).

Dywed adroddiad gan Estyn (2002) bod ysgolion uwchradd sydd efo safonau da yn adeiladu yn effeithiol ar gyrhaeddiad iaith Cymraeg blaenorol y disgyblion. Mae'r staff yn yr ysgolion yma yn aml yn elw o ganllawiau clir a digon o hyfforddiant ynglŷn am sut i gynnig darpariaeth ddwyieithog a sut i ddatblygu sgiliau iaith y disgyblion yn draws gwricwlaidd. Mae'r ysgolion yma yn gweithio i wella dealltwriaeth rhieni am yr elwau addysg o fod yn ddwyieithog. Gyda'r ysgolion fwyaf llwyddiannus yn cynhyrchu polisi iaith ysgol gyfan gan roi llyfrynnau wybodaeth i'r rhieni. Hefyd, mae modelu hyblyg o ddarparu iaith yn helpu ysgolion gwneud cynnydd mwyaf effeithiol (Estyn, 2002). Gwelwn fod yr hyn a chafodd ei grynhoi gan Estyn yn 2002 dal yn berthnasol yn adroddiad blynyddol mwy diweddar gan brif arolygydd addysg a hyfforddiant yng Nghymru ym 2017 (Estyn, 2017). Mae'r adroddiad hwnnw yn mynd ymlaen i ddweud bod cael modelau rôl dda yn helpu datblygu iaith y disgyblion mwy eto (Estyn, 2017, pp.35-26).

Adfyfrio

Ym mhob gwers mae'r athrawon yn ymdrechi i sicrhau bod y disgyblion yn siarad Cymraeg. Mae hyn yn ddisgwyliedig mewn ysgol uwchradd Cymraeg fel Ysgol X. Yr elfen siomedig oedd y ffaith bod yr athrawes a gwelwn yn yr achos wedi rhoi bach o stŵr i'r dosbarth ynglŷn â Chymreictod. Gall gweld bod nid oedd hyn yn effeithiol iawn, gan fod y dosbarth wedi ymateb trwy fynd yn fwy tawel ond yn parhau i siarad Saesneg. Fel gwelwn yn y llenyddiaeth

mae yna dystiolaeth bod disgyblion yn gwrthod dilyn rheolau oedolion oherwydd eu cyfoes ddatblygiad meddyliol ac felly bydd yn ymateb yn ddrwg i'r sefyllfa. Mae bachgen yn enwedig yn ymateb yn ddrwg oherwydd bod ganddynt edrych cymdeithasol wahanol i gymharu â merched. Mae sefydlu'r edrychiad o'r iaith Cymraeg fel rheol gaeth felly yn wrthgynhyrchol. I wella hyn mae rhaid cael dynesiad gwahanol yn lle cosbi trwy'r amser. Darganfyddwn fod defnyddio dull gofal adferol yn lle cosbi yn fwy effeithiol ac yn adeiladol, yn lle creu'r argraff bod Cymraeg yn dasg mae rhaid hybu balchder a'r hyder i siarad o. Yn y dyfodol, mae'n fwy gwerthfawr i ddefnyddio dull yma i ddod i'r gwraidd o'r broblem er mwyn datrys.

Mae addysg trwy gyfrwng y Gymraeg wedi dod y brif fordd i greu mwy o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn o bosib yn rhwystro cynnydd mewn Cymraeg gan fod e'n dod yn gysylltiedig â'r ysgol a'r gwaith ynddo, oherwydd hyn ni fydd y disgyblion yn gwneud defnydd o eu hiaith tu allan o'r ysgol. Yn y dyfodol, mae'n well defnyddio'r Gymraeg mewn testun mae'r disgyblion yn ymateb i, hynny yw, yn siarad am fywyd pob dydd yn lle just waith. Er enghraifft, byddaf yn siarad am y Rygbi dros y penwythnos neu am rywbeth diddorol a gwelwn ar y newyddion. Trwy gysylltu efo'r disgyblion mae yna fodd adeiladu perthynas efo nhw. O ganlyniad i hyn, creu amgylchedd cyffyrddus, lle mae'r disgyblion yn falch o'r iaith ac yn dod yn fwy parod i ddatblygu sgiliau iaith Cymraeg. Hefyd, fel athrawon os byddwn yn sicrhau bod yn defnyddio iaith gyfoethog pam yn cyfathrebu efo nhw, bydyn nhw yn gwella iaith heb sylweddoli ac yn dod yn fwy hyderus pam yn siarad. Yn debyg i hyn, bydd hybu cynnwrf o gwmpas gwneud gweithgareddau yn y Gymraeg, yn enwedig o'n gwmpas y pwnc a ddysgwn, yn dechrau atgyfnerthi blatfform ar gyfer defnyddio'r iaith tu allan a thu hwnt o fywyd ysgol.

Dywed Donaldson (Llywodraeth Cymru, 2015a) bod rhaid i athrawon defnyddio eu sgiliau proffesiynol a dyfarniadau i ddewis y dulliau addysgu cywir yn y ciwricwlwm newydd. Felly ar gyfer y dyfodol, mae'n bwysig addasu dysgu i'r disgyblion unigol, er mwyn iddyn nhw gael y mwyaf allan o'r ddysgu ac felly bod yn y sefyllfa gorau posib i weithredu 4 diben Donaldson. Mae adfyfrio beirniadol yn galluogi athrawon i gwestiynu eu rhagdybiau a gwella eu dealltwriaeth. I sicrhau arfer da, mae rhaid cymryd pob cyfle i fod yn feirniadol amdano ddigwyddiad, er enghraifft gwers a ddysgwn, er mwyn datblygu yn broffesiynol. Fel y gwelir yn yr atodiadau, defnyddiwn fodel Beirniadu Wedi Adfyfrio (BWA) i wneud hyn. Mae'r model yma yn helpu ni newid y testun o ddigwyddiad ac i wahaniaethu ein teimladau er mwyn fod yn ddiduedd am y pam mae hyn wedi digwydd. Mae'r BWA yn helpu ni i wneud gwersi'r dyfodol yn fwy effeithiol gan fod yn dadansoddi'r hyn sydd wedi gweithio yn dda, beth oedd yn aneffeithiol ar gamau gweithredu ar gyfer y wers nesaf. O ganlyniad i hyn, byddwn yn cael profiad trawsnewidiol.

Mae yna waith gan Schön (1983) sydd yn cefnogi'r model hwn lle mae yna dau ddull o adfyfrio. Yr un cyntaf yw Adfyfrio-mewn-ffaith, lle mae rhaid ystyried y sefyllfa, penderfynu ar sut i ymateb ac wedyn ymateb yn syth. Yr ail yw Adfyfrio-ar-ffaith, lle byddwn yn ailystyried y sefyllfa a meddwl am beth sydd angen eu haddasu am y dyfodol. Trwy adfyfrio nôl ar addysgu blaenorol gall gwybod beth i wneud yn wahanol yn y dyfodol gan ystyried achosion a dewisiadau o ddealltwriaeth ehangach o ymchwil (Cambridge Assessment International Education, 2019). Felly, pam daeth sefyllfa debyg lan eto, bydd yr Adfyfrio-mewn-ffaith yn fwy effeithiol a fydd y canlyniad o bosib yn gwella. Mae modelau adfyfrio yn pwysleisio bod angen ailadrodd y gylchred i sicrhau bod gwybodaeth yn cadarnhau a bod dilyniant yn parhau.

Casgliadau

Mae arsylwi yn helpu athrawon newydd i gael edrychiad i mewn i'r bywyd gwaith sydd o'n blaen nhw ac i ddadansoddi yn ddyfnach i mewn i'r pam mae achos penodol wedi digwydd. O ganlyniad i hyn mae yna fodd ennill well dealltwriaeth am bobl ifanc a'u datblygiad nhw yn y byd heddiw. Mae'r ddealltwriaeth yma yw'r ffurf orau i wella addysgu am y gorau, trwy addasu a gweithredu technegau newydd, yn enwedig os byddwn yn dilyn cwricwlwm newydd a phedwar diben Donaldson. Mae'r Safonau Proffesiynol am Addysgu ac Arweinyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2019b) yn sefydlu disgwyliadau clir am arfer effeithiol yn ystod gyrfa ymarferwr ac yn cynnwys pam maen nhw yn cychwyn. Gosodwyd llywodraeth Cymru safonau ynglŷn ag adfer sydd yn gyson efo'r cwricwlwm newydd. Yn ychwanegu ar hyn, mae'r safonau yn galluogi i ymarferwyr i adfyfrio yn unigol ac ar y cyd ac i gymharu arfer yn erbyn safonau cenedlaethol er mwyn cadarnhau a dathlu llwyddiannau.

Rhoddwyd y profiad yma safbwynt ehangach o'r hyn a gwelwn yn y dosbarth ac yn lle derbyn a symud ymlaen, mae nawr ganddi i syniad o sut i ddadansoddi a gwella profiad dysgu'r disgyblion. O ganlyniad i hyn, mae gen i frwdfrydedd adnewyddwyd i gymryd y camau ystyrlon i wella agwedd am yr iaith Cymraeg a sgiliau iaith y disgyblion. O ran a datblygiad personol, fel dywed cyn, trwy arsylwi ac adfyfrio yn gyson ar hyn byddwn yn addysgu, bydd y safonau yma yn cynorthwyo fi fel athrawes i adnabod ar ardaloedd wan arnom ac yn helpu i gryfhau nhw er mwyn hybu datblygiad proffesiynol.

Cyferiadau

Baker, C. (2003). 'Language planning: A grounded approach', in Dewaele, M.J., Housen, A., & Wei, L. (eds.), *Bilingualism: Beyond basic principles*, pp.88–111. Clevedon: Multilingual Matters

Bitel, M. (2005). 'National evaluation of the restorative justice in schools programme. London: Youth Justice Board for England and Wales' in McCluskey, G., Lloyd, G., Stead, J., Kane, J., Riddell, S. & Weedon, E. (2008). 'I was dead restorative today': from restorative justice to restorative approaches in school.' *Cambridge Journal of Education*. 38(2), pp.199-216. London: Cambridge.

Cambridge Assessment International Education (2019). *Getting started with Reflective Practice*. Available at: <https://www.cambridge-community.org.uk/professional-development/gswrp/index.html> (Accessed: 23rd October 2019)

Cameron, L. and Thorsborne, M. (2001). *Restorative justice and school discipline; mutually exclusive?* in Strang, H. and Braithwaite, J. (ed.) *Restorative justice and civil society*, pp. 180-195. London: Cambridge University Press.

Cohen, L., Manion, L. Morrison, K. Bell, R. (2011). *Research methods in education* 7th Ed. London; New York: Routledge.

Education through Regional Working. (2018). *Cymraeg Campus Language Charter*. Available at: <https://www.erw.wales/schools/teaching-and-learning/language-charter/> (Accessed: 22nd October 2019)

Estyn. (2002). *Policy Review: Welsh Language in Education*. Available at: [http://www.assembly.wales/Committee%20Documents/ELL%2007-02\(p.4\)%20Estyn-24042002-28980/3cbea05e0002e6e40000138200000000-English.pdf](http://www.assembly.wales/Committee%20Documents/ELL%2007-02(p.4)%20Estyn-24042002-28980/3cbea05e0002e6e40000138200000000-English.pdf) (Accessed: 23rd October 2019)

Estyn. (2017). *The Annual Report of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales*. Available at: <http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11387/gen-ld11387-e.pdf> (Accessed: 23rd October 2019)

Labov, W. (1990). *The intersection of sex and social class in the course of linguistic change*. *Language Variation and Change*, 2, pp.205–254. DOI: 10.1017/S0954394500000338

Lata, S. and Devi, A. (2016). *Problems and Challenges during adolescence*. *International Journal of education*, 6(2), pp. 205-210.

Llywodraeth Cymru. (2015a). *Successful Futures*. Available at: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/successful-futures-a-summary-of-professor-graham-donaldsons-report.pdf> (Accessed: 10th October 2019)

Llywodraeth Cymru. (2015b). *Pedwar diben y cwricwlwm I gymru*. Available at: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/pedwar-diben-y-cwricwlwm-i-gymru.pdf> (Accessed: 22nd October 2019)

Llywodraeth Cymru. (2018). *My Local School*. Available at: <http://mylocalschool.gov.wales> (Accessed: 1st October 2019)

Llywodraeth Cymru. (2019a). *Siarter iaith framework: Initial guidance for schools*. Available at: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/f0/54/9c/51/a06c431d9d28d576ccb0f88a/siarter-iaith-framework.pdf> (Accessed: 22nd October 2019)

Llywodraeth Cymru. (2019b). *Professional standards that apply to practitioners in Wales*. Available at: <https://hwb.gov.wales/professional-development/professional-standards/> (Accessed: 24th October 2019)

McCluskey, G., Lloyd, G., Stead, J., Kane, J., Riddell, S. & Weedon, E. (2008). 'I was dead restorative today': from restorative justice to restorative approaches in school', *Cambridge Journal of Education*, 38(2), pp. 199-216. London: Cambridge.

Morrison, K. R. B. (1993). *Planning and Accomplishing School-Centred Evaluation*. Norfolk: Peter Francis Publishers.

Price, R.A. and Tamburelli, M. (2016). *Minority language abandonment in Welsh-medium educated L2 male adolescents: classroom, not chatroom*, *Language, Culture and Curriculum*, 29(2), pp. 189-206. London: Routledge. DOI: 10.1080/09500782.2010.544743

Schön, A. D. (1991). *The reflective practitioner: How Professionals Think in Action*. London: Routledge.

Smith, K. (2016). *Cirriculum, Culture and Citizenship Education in Wales*. London: Palgrave Macmillan.

Swansea Council. (2014). *Restorative Practice in Swansea schools: A small-scale evaluation*. Swansea: Swansea Metropolitan University of Wales. Trinity St David

Thomas, E. M., Roberts, D. B. (2011). 'Exploring bilinguals' social use of language inside and out of the minority language classroom', *Language and Education*, 25, pp. 89–108. London: Routledge. DOI: 10.1080/09500782.2010.544743

Tripp, D. (2012). *Critical incidents in teaching: developing professional judgement*. London: Routledge.

Urdd Gobaith Cymru. (2019). *Cymraeg Bob Dydd*. Available at: <https://www.urdd.cymru/en/youth-work/cymraeg-bob-dydd/> (Accessed: 22nd October 2019)

Welsh Language Board. (2008). *Language use surveys (2004-2006)*. Available at: https://sp.ukdataservice.ac.uk/doc/7477/mrdoc/pdf/7477_methodology_in_english.pdf (Accessed: 16th October 2019)

Wong, D. S. W., Cheng, C.H.K., Ngan, R. M. H., & Ma, S. K. (2011). 'Program effectiveness of a restorative whole-school approach for tackling school bullying in Hong Kong', *International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology*, 55(6), pp. 846-862.

Atodiadau

NODIADAU ARSYLWI / MAES - A

Dyddiad: 26/09/19
Manylion y wers: 10:45yb ail wers y dydd (Ar ôl egwyl) - Daearyddiaeth (Hyd: 1 awr), blwyddyn 8, dosbarth mawr (Tua 33 o blant) yn eistedd mewn 3 siâp U.
Diwylliant ar lawr dosbarth Athrawes yn defnyddio'r holl ystafell, defnydd da o ddeunydd o gwmpas yr ystafell. Awyrgylch ffurfiol, defnyddio'r dull asesu o law i fynnu. Yn gofyn cwestiynau agored ac annog y disgyblion i esbonio yn bellach.
Amcanion Amseroedd i wneud pob tasg (Tua 15 munud). Tasg heriol a diddorol, disgyblion yn gweithio yn llwyddiannus. Geirio pwysig yn cael eu hysgrifennu ar y bwrdd gwyn.
Cyfarwyddyd Athrawes yn atgoffa am y wybodaeth sydd angen ar y disgyblion yn aml trwy gwestiynu a chyfeirio at y geiriau ar y bwrdd gwyn.
Mynediad a her Tasgiau diddorol, disgyblion yn parhau i wneud Gwaith. Gwelwn bod rhai yn weithio yn annibynol on mae rhai eraill yn aros tan bod y person nesaf iddynt nhw yn cwblhau y cwestiwn – Falle diffyg hyder?
Asesu Mae'r athrawes yn cwestiynu'r disgyblion i asesu, ond gan fod hi yn defnyddio 'llaw i fynnu' mae rhai o'r disgyblion yn troi bant.
Manylebau / Achosion Beirniadol "Ydy hyn yn gywir?" – disgyblion yn chwilio am gysur yn gyson. Bachgen yn rhoi ei llaw lan yn isel pryd mae'r athrawes yn gofyn cwestion, diffyg hyder? Disgyblion yn siarad Saesneg wrth wneud gwaith, mae'r athrawes yn dweud bod hi gallu clywed Saesneg ac yn gofyn iddyn nhw i siarad Cymraeg yn eithaf caled. Mae'r disgyblion yn dechrau siarad am y dasg yn Gymraeg ond yn parhau i gyfathrebu efo'i gilydd yn Saesneg. Swm y dosbarth yn disgyn.

NODIADAU ARSYLWI / MAES - B

Dyddiad: 26/09/19
Manylion y wers: 11:45yb trydedd wers y dydd (Cyn cinio) – Addysg Grefyddol (Hyd: 1 awr), blwyddyn 8, dosbarth mawr (Tua 33 o blant) yn eistedd ar 6 bwrdd gwahanol o gwmpas yr ystafell.
Diwylliant ar lawr dosbarth Ar ddechrau'r wers mae'r disgyblion yn siarad dros yr athrawes, ond ar ôl rhybudd yn setlo i lawr ac yn dechrau gweithio. Wrth gyflawni'r dasg mae'r athrawes yn cerdded o gwmpas yr ystafell.
Amcanion Athrawes yn cyfeirio at bwrpas y wers ar y bwrdd gwyn wrth i'r disgyblion eistedd. Gweithgareddau diddorol i helpu cofio'r 10 gorchymyn, disgyblion yn ymateb yn dda. Gofyn i'r disgyblion meddwl am ateb cyffredin a rhoi yn eiriau eu hun.
Cyfarwyddyd Mae'r athrawes yn setio cyfarwyddiadau clir ar gyfer gwneud y dasg a sut i'w llwyddo – e.e. mae rhaid i'r disgyblion ateb mewn brawddegau llawn.
Mynediad a her Mae rhai o'r disgyblion falle yn ffeindio'r dasg yn rhy syml ac yn colli diddordeb, dechrau chwarae lan.
Asesu Athrawes yn holi pawb ac yn gofyn cwestiynau estynedig.
Manylebau / Achosion Beirniadol Tasg 1 – Disgyblion i drafod beth maent nhw yn gwybod am y 10 gorchymyn - Ferched ar y bwrdd tuag at y cefn o'r ystafell yn dweud "Don't worry, they'll do it" ac yn gadael y bechgyn ar y bwrdd (sydd â diddordeb) trafod a chyflenwi'r ateb. Felly, ydy pawb yn cael eu herio?

NODIADAU ARSYLWI / MAES - C

Dyddiad: 2/10/19
Manylion y wers: 10:45yb ail wers y dydd (Ar ôl egwyl) – Dulunio a Thechnoleg (Hyd: 1 awr), blwyddyn 8, tua 20 o ddisgyblion yn eistedd ar 6 bwrdd gwahanol.
Diwylliant ar lawr dosbarth Athro wedi esbonio a dasg, disgyblion yn glir beth rhaid iddynt nhw gwneud. Dosbarth yn eithaf di-drefn.
Amcanion Rhaid creu nodiadau am ddarlun o syniad cloc o'r model mae'n nhw wadi adeiladu. Lot o siarad ond rhanwyaf yn aros ar dasg.
Cyfarwyddyd Athro wedi dod a'r ddisgyblion i'r blaen o'r dosbarth ac wedi esbonio beth sydd yn disgwyledig arnyn nhw i lwyddo. Er engraifft, sicrhau bod digon o fanylion ar y waith. Mae'r athro yn cynnal sgwrs ac mae'r disgyblion yn ymateb yn da ac yn cymrud rhan.
Mynediad a her Tasg gloi syml, ond yn cymryd lot o amser i funny oherwydd bod y bechgyn yn chwarae lan ac yn yn tarfu ar y disgyblion eraill.
Asesu Cwesitynnu y disgyblion am y dasg ac yn rhoi syniadau. Mae'r athro hefyd yn mynd o gwmpas i ateb unrhyw cwestiynnau ac i gadw nhw ar dasg ac yn sicrhau bod yn ei cwblhau.
Manylebau / Achosion Beirniadol Mae gan un o'r bachgen sydd yn tarfu ar y disgyblion eraill cas pencil oren efo un pen yn unig ynddo, sefyllfa gatref? Yn amlwg mae'r bachgen yn hoffi tynnu sylw, os ganddo problemau ymddygiad? Grwp o fechgyn yn chwarae o gwmpas efo tap selo yn lle gwneud y tasg syml, tasg rhy syml? Ddim yn cadw digon o ddiddordeb?

NODIADAU ARSYLWI / MAES - D

Dyddiad: 2/10/19
Manylion y wers: 11:45yb trydydd wers y dydd (Cyn Cinio) – Saesneg (Hyd: 1 awr), blwyddyn 8, tua 33 o ddisgyblion yn eistedd mewn drefn 2,6,2.
Diwylliant ar lawr dosbarth Athrawes yn gadael y plant I sgwrsio, efo tasg glir a diddorol. Plant yn cyffroes l'w gwneud ac yn siarad I rhannu ei syniadau.
Amcanion Cysylltiad efo'r wers cyn – rhoi tasg diddorol am anifeiliaid mewn gaethiwed. Hynny yw, meddwl am anifail a disgrifio heb enwi. Wedyn mae rhaid i'r dosbarth difalu pa anifail. Tasg cychwyn, ond yn cymrud lan lot o amser oherwydd bod pob disgybl mwyn cael tro – ond mae'r athrawes yn da at tunny sylw y plant.
Cyfarwyddyd Athrawes yn esbonio yn glir ac yn helpu tanio dychymyg y disgyblion gan rhoi syniadau iddynt nhw
Mynediad a her Tasg diddorol, yn ennyn diddordeb ac mae'r holl dosbarth yn cymrud rhan.
Asesu Disyblion yn adrodd ar lafar i weddill y dosbarth, athrawes yn gofyn cwestyinau agored ond yn gadael y disgyblion i arwain y sgwrs.
Manylebau / Achosion Beirniadol "Miss where do we do it again?" ar ol l'r athrawes esbonio 2 waith cyn hynnu. 2 bachgen yn cyfarthrebu yn cymraeg ynglyn ar dasg a hefyd bywyd tu allan o'r ysgol. Pryd ofynais, dywed un o'r bachgen bod e yn siarad cymraeg gatref. Wrth l bachgen arall oedd yn siarad saesneg trwy'r dydd eistedd nesaf iddo aeth y sgwrs cario ymlaen yn saesneg. Falle yn anghyfyddus efo defnyddio ei iaeth l edrych yn cwl? Pawb yn rhy cyffroes am y dasg ac roess yn anodd l gadw disgybliaeth, athrawes yn defnyddio'r un techneg trwy'r amser (3..2..1), techneg yn colli effeithiolrwydd.

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) - A

Dyddiad/Date: 26/09/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Cosbi am gymreictod

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Yn diddorol iawn, ystyried a oes rheswm mae'r disgyblion yn gwrthod siarad cymraeg.
Cofio a Deall/ Remember and Understand Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgi oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	Athrawes yn gofyn i'r blant i siarad cymraeg yn ystod tasg, plant yn dechrau siarad am y waith yn cymraeg ond yn cyfarthrebu yn saesneg. Er engraifft "Are you going to gwyddoniaeth?". Ar ol l'r athrawes cosbi nhw daeth yr egni i lawr, disgyblion yn dechrau sgwrsio yn dawel, a oedd cosbi nhw yn eithaf calad ar lafar yn effeithiol?
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	Ym mhob wers mae'r athrawon yn ymdrechi i sicrhau bod y disgyblion yn siarad cymraeg. Fel gwelwn, byddaf yn setio disgwyliadau ar gyfer cymreictod. Yr elfen siomedig oedd y ffaith bod yr athrawes wedi rhoi fach o stwr l'r dosbarth ynglyn a chymreictod ac nid oedd hyn yn effeithiol.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd? "What are your possible solutions to the disappointing issues identified?" Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf? "What will you do next?"	Defnyddio'r cymraeg mewn testyn mae'r disgyblion yn ymateb l ac yn sicrhau bod yn defnyddio iaith cyfoethog er mwyn wella iaith nhw. Creu amgylchedd cyffyrddus lle mae'r disgyblion yn balch o'r iaith. Yn lle cosbi disgyblion am siarad saesneg, defnyddio gofal adferol. Felly, nesaf mae rhaid edrych i fewn l ofal adferol er mwyn sicrhau byddaf yn gweithredu yn yn fy addysgu.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) - B

Dyddiad/Date: 26/09/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Herio pob disgybl

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	Yn siomedig bod y ferched yn gwrthod trio y dasg.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>"Can you list the aspects of the learning experience that went well?"</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgi oedd yn siomedig?</i> <i>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"</i>	Tasg cychwyn ar dechrau y wers, ferched ar y bwrdd tuag at y cefn o'r ystafell yn dweud "Don't worry, they'll do it" ac yn gadael y bechgyn ar y bwrdd (sydd â diddordeb) trafod a chyflenwi'r ateb. Mae'r athrawes dim wedi gweld hyn ac pryd mae'r amser yn dod i drafod, mae'r bechgyn yn adrodd i'r athrawes.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i> <i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i>	Roedd yr athrawes yn agor y sgwrs yn da i'r dosbarth, gan defnyddio cwesitynnu i atgoffa nhw o'r wers cyn. Yn defnyddio sgiliau meddwl i dweud yr yn brawddeg a'r person cyn ond gan defnyddio geiriau wahanol. Ond fel dywod cyn, nid cafodd pob disgybl ei herio.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	Falle cychwyn efo tasg mwy heriol a diddorol lle mae rhaid i bawb cymrud rhan ac defnyddio dull assessu well. Mae rhaid edrych i fewn i dulliau wahanol o assesu a gweld pa rhai sydd yn effeithiol.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) - C

Dyddiad/Date: 2/10/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Ymddygiad bechgyn yn y dosbarth

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Yn grac bod y bechgyn yn parhau i ymharu a'r disgyblion eraill.
Cofio a Deall/ Remember and Understand Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	Mae'r tasg dim yn heriol ond yn angenrheidiol ar gyfer y tasg nesaf. Yn pwnc fel Dulunio a Technoleg mae'r bechgyn yn cael fwy o rhyddid i chwarae o gwmpas. Roedd yr athro yn da at rhoi adborth a syniadau i'r disgyblion ynglun ar dasg ond nad oedd e yn cadw disgyblaeth y bechgyn a oedd yn hoffi tynnu sylw.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	Roedd dull cwestiynnu yr athro yn da yma, gan gofyn cwestiynau agored ac yn gwtio'r disgyblion i ehangu arno eu atebion. Mae'r dasg a goswyd yn pwysig i wneud er mwyn symyd ymlaen efo'r prosiect ond nad oedd yn heriol.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd? "What are your possible solutions to the disappointing issues identified?" Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf? "What will you do next?"	Yn y dyfodol, edrychaf at rhoi llai o amser i'r tasgiau llai heriol i wneud e'n fwy hawdd i gadw ymddygiad. Yn enwdig am y bechgyn sydd yn hoffi tynnu sylw. Falle siarad iddynt nhw gan defnyddio gofal adferol yn lle gwaeddu arnyn nhw trwy'r amser. Eto, edrych i fewn i ofal adferol a hefyd weithio arno amseri a defnyddio tasgiau yn effeithiol.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) - D

Dyddiad/Date: 2/10/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Rheoli cyffro yn y dosbarth

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Yn hapus bod y plant yn cymryd rhan yn y sgwrs on yn becsu am aros ar dasg.
Cofio a Deall/ Remember and Understand Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgi oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	Hoffaf y fordd mae'r athrawes yma wedi agor y wers efo tasg diddorol a oeddd pob disgybl a diddordeb mewn gan cysylltu hefyd a'r wers cyn. Ond oherwydd roedd pob disgybl mwyn cael tro i adrodd y tasg, oedd tasg cychwyn wedi cymryd lan rhi gormod o amser a chollodd trefn ar y wers.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	Byddaf yn gwneud ymdrech i osod tasgiau diddorol a fydd yn ennyn diddordeb yn y pwnc fel gwelwn yn y wers hyn. Ond, roedd y cyffro yn y wers yn atal i'r plant gwneud tasgiau eraill a goswyd iddynt nhw.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd? "What are your possible solutions to the disappointing issues identified?" Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf? "What will you do next?"	Yn y dyfodol, byddaf yn ymdrechi i gadw gafael ar cyffro y disgyblion i gael fwy o drefn ar y wers ac i sicrhau bod y disgyblion yn cael rhywbeth o'r wers. Felly, edrychaf i fewn i dasgiau cychwyn effeithiol a deffnyddio nhw yn doeth.
Y profiad newydd / Transformed experience	